

## **Gweddi**

Frenin y brenhinoedd ac Arglwydd yr arglwyddi, ti yw ein Duw.  
Roeddet ti'n bod cyn i amser ddechrau.  
Mae dy lais di, Arglwydd Dduw, yn uwch na rhu'r moroedd.  
Rwyt yn fwy grymus na thonnau aruthrol y môr.  
Rwyt ti'n bod am byth bythoedd.  
Rwyt ti wedi bod. Rwyt ti yn awr. Fe fyddi di.  
**Amen.**

## **Salm 93**

**Y mae'r ARGLWYDD yn frenin; y mae wedi ei wisgo â mawredd,  
y mae'r ARGLWYDD wedi ei wisgo, a nerth yn wregys iddo.  
Yn wir, y mae'r byd yn sicr, ac nis symudir;  
y mae dy orsedd wedi ei sefydlu erioed;  
yr wyt ti er tragwyddoldeb.  
Cododd y dyfroedd, O ARGLWYDD,  
cododd y dyfroedd eu llais,  
cododd y dyfroedd eu rhu.  
Cryfach na sŵn dyfroedd mawrion,  
cryfach na thonnau'r môr,  
yw'r ARGLWYDD yn yr uchelder.  
Y mae dy dystiolaethau'n sicr iawn;  
sancteiddrwydd sy'n gweddu i'th dŷ,  
O ARGLWYDD, hyd byth.**

## **Myfyrdod**

Neges y Frenhines Elizabeth i Synod Eglwys Loegr yr wythnos diwethaf oedd na all neb ohonom arafu treigliad y blynyddoedd. Bu newidiadau mawr, meddai, dros yr hanner canrif ers iddi fynychu'r Synod am y tro cyntaf, ond er cymaint y newid pwysleisiodd fod rhai pethau yn dal yr un fath, gan gynnwys neges Crist a'i Efengyl.

Cyflwynwyd araith y Frenhines yn ei habsenoldeb gan y Tywysog Edward a diau fod hynny wedi rhoi min ychwanegol i'w geiriau.

Awgrymodd rhai bod Salm 93 yn cael ei defnyddio gan yr Iddewon wrth iddynt orseddu brenin, ac y cai'r brenin yn Israel ei orseddu yn flynyddol. Bwriad hynny oedd atgoffa'r brenin na fyddai'r bobl am ei gael yn frenin

arnynt pe na bai yn ymddwyn yn briodol, ac mai Duw ei hun oedd gwir frenin.

Amlygodd Duw ei frenhiniaeth yn y gorffennol drwy greu'r byd, ac wrth i'r brenin daearol gael ei orseddu datgenid fod Duw y Creawdwr yn frenin yn dragwyddol. Er i'r dyfroedd, sy'n cynrychioli pechod a drygioni, fygwth ei frenhiniaeth y mae Duw yn gryfach na'r cwbl.

Bwriad y Salmydd oedd gosod y brenin a'i deyrnas, byd a bywyd, mewn cyd-destun cywir. Y mae'r geiriau adnod olaf y Salm, sef **'sancteiddrwydd sy'n gweddu i'th dŷ'** i'w gweld weithiau ar y pared mewn ambell i gapel, yn atgoffa'r addolwyr o fawredd Duw, a bod hynny yn gofyn am ymagwedd briodol ganddynt hwythau.

### **Gweddi o ddiolchgarwch**

Am ehangder dy fodolaeth, ein Duw a'n brenin:

**rhown ddiolch a mawl i ti.**

Am dy addewid i fod gyda ni bob amser, ein Duw a'n brenin:

**rhown ddiolch a mawl i ti.**

Am roi dy wirionedd, ein Duw a'n brenin:

**rhown ddiolch a mawl i ti.**

Am dy lais sy'n ein galw, ein Duw a'n brenin:

**rhown ddiolch a mawl i ti.**

Am fywyd Iesu, ein Duw a'n brenin:

**rhown ddiolch a mawl i ti.**

Am dy Ysbryd Glân, ein Duw a'n brenin:

**rhown ddiolch a mawl i ti.**

Am yr addewid o'th deyrnas, ein Duw a'n brenin:

**rhown ddiolch a mawl i ti.**

Am addewid o'th groeso tragwyddol, ein Duw a'n brenin:

**rhown ddiolch a mawl i ti.**

**Amen.**

### **Emyn 223**

Mawl fo i'r Arglwydd, sy'n Frenin gogoniant a mawredd:

clod i'r Goruchaf, a ddyry i'm henaid orfoledd:

tyred â'th gân,

salmau, telynau yn lân,

seinier ei fawl yn ddiddiwedd.

Mawl fo i'r Arglwydd, Penllywydd rhyfeddol pedryfan:  
noddfa dragwyddol ei adain sydd drosot yn llydan:  
cadarn yw'r lôr,  
ynddo i'th gynnal mae stôr,  
amlwg i'th olwg yw'r cyfan.

Mawl fo i'r Arglwydd, bendithia dy ran yn dragywydd:  
tywallt o'r nefoedd mae ffrydiau y cariad ni dderfydd:  
enaid, erglyw!  
gymaint yw gallu dy Dduw,  
cariad hyd fyth a'th gyferfydd.

Mawl fo i'r Arglwydd, a'r cwbl sydd ynof yn ennyn:  
ef yw goleuni dy enaid bob dydd sy'n dy ddilyn:  
holl lwythau'r byd,  
cenwch yn llafar ynghyd:  
moler hyd oesoedd diderfyn!

JOACHIM NEANDER, 1650-80 cyf. J. D. VERNON LEWIS, 1879-1970

### **Ctrl a chlic**

[https://youtu.be/7cEGb\\_I-Kts](https://youtu.be/7cEGb_I-Kts)

Moyra Greaney

### **Gweddi i gloi**

Crist ein Brenin,  
sicrha ni o'th bresenoldeb gyda ni –  
oherwydd rydym yn perthyn i ti.  
Helpa ni i chwilio am y gwir ym mhob man,  
i chwilio am dy lais di a gwranddo arno,  
ac i ddefnyddio dy rym i wasanaethu.  
Tyrd â'r nefoedd i'r ddaear a theyrnasa yn ein bywydau.  
Gweddiwn yn dy enw, Iesu Grist.

**Amen.**

*Cymerwyd y gweddiâu oddi ar wefan Roots Ecumenical Partnership.*